# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 21 TACHWEDD 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J C Bayliss | U C Clay | E T Kirchner |
| R V Smith | T M White | |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J. E. C. Harris | Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mariann Pedersen | Rheolwr Gwasanaethau Byw'n Annibynnol |
| Nia Walters | Uwch-ymarferydd, Gwasanaethau i Oedolion |
| Ffion Larsen | Prif Swyddog, Diogelu a Lles |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E J King

35 **ELECTION OF CHAIR PRO TEM.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd E T Kirchner i fod yn Gadeirydd Dros Dro.

**(LLYWYDDODD Y CYNGHORYDD E. T. KIRCHNER)**

36 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

37 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

38 **CYFLWYNIAD - TÂL UNIONGYRCHOL.**

Rhoddwyd cyflwyniad ar Ofal a Chefnogaeth Greadigol drwy'r Taliadau Uniongyrchol gan Mariann Pedersen, Rheolwr Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Nia Walters, Uwch-Ymarferwr a Ffion Larsen, Prif Swyddog Diogelu a Lles, Gwasanaethau i Oedolion.

Rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor am y newidiadau deddfwriaethol a'r effaith ar Daliadau Uniongyrchol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion a oedd yn cyflwyno a chafwyd trafodaeth am y pethau canlynol: -

- Sut cynhelir asesiadau ar allu meddyliol;
- Cost asesiadau o'r fath;
- Safbwynt gofalwyr;
- Addasrwydd darparwyr gofal;
- Argaeledd darparwyr gofal amgen;
- Statws cyflogwr derbynyddion Taliadau Uniongyrchol, sy'n wahanol i Asiantaeth;
- Mwy o ddewis o ran pecynnau gofal;
- Nifer sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol;
- Ymagwedd fesul cam at gyfradd yn ôl yr awr a gynigir;
- Terfyn ar adnoddau.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddogion cyflwyno a'u timau am eu gwaith parhaus.

**PENDERFYNWYD**: -

1) nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn chwe mis.

## 39 Y DIWEDDARAF AM ADOLYGIADAU COMISIYNU. (LLAFAR)

Dywedodd y Cynghorydd J E C Harris, Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn nad oedd ganddi unrhyw wybodaeth ychwanegol am yr adroddiad.

## 40 ADRODDIAD AM YMWELIAD I GYNGOR SWYDD SIR FYNWY . (LLAFAR)

Rhoddodd y Cynghorydd J E Harris, y Cynghorydd dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn, y diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch yr ymweliad â Chyngor Sir Fynwy.

Trafododd y pwyllgor y dull meddwl Vanguard a ddefnyddir gan Gyngor Sir Fynwy a'i ymagwedd at Daliadau Uniongyrchol i gleifion a oedd wedi bod i'r ysbyty, er mwyn iddynt ddychwelyd adref yn gyflym.

**PENDERFYNWYD** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 41 RHAGLEN WAITH 2016/17.

Rhoddodd y cadeirydd yr adroddiad am Raglen Waith 2016 – 2017.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.45 pm

**CADEIRYDD**